



YSGOL GYMREAG YSTALYFERA-BRO DUR




Polisi Addysg Rhyw a Phernasoedd

Athro Dynodedig Diogelu Plant Ystalyfera :	Mrs Delyth Spurway
Athro Dynodedig Diogelu Plant Bro Dur:	Miss Sioned Jones
Dirprwy ADDP Ystalyfera:	Mrs Rhiannon Hammond/Mrs Angharad Lloyd
Dirprwy ADDP Bro Dur:	Miss Kath Jones
Llywodraethwr Dynodedig Diogelu Plant:	Mrs Carys Jones

Cymeradwyd gan y Llywodraethwyr 2018

Llofnod (Cadeirydd y Llywodraethwyr):  Ionawr 2018

Adolygwyd gan y Llywodraethwyr:

Llofnod (Cadeirydd y Llywodraethwyr):  Ionawr 2019
Llofnod (Cadeirydd y Llywodraethwyr):  Ionawr 2020
Llofnod (Cadeirydd y Llywodraethwyr):  Ionawr 2021
Llofnod (Cadeirydd y Llywodraethwyr): Ionawr 2022

Defnyddir canllawiau *Cylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Addysg Rhyw a Phernasoedd mewn ysgolion 019/2010 a Fframwaith ABCH ar gyfer Dysgwyr 7-19 oed yng Nghymru* ar gyfer cynllunio rhaglen Addysg Rhyw Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur.

Y nod yw cynorthwyo disgyblion i feithrin y sgiliau a'r wybodaeth sy'n briodol i'w hoedran, dealltwriaeth a datblygiad a'u galluogi i wneud penderfyniadau cyfrifol ynglŷn â'u perthnasoedd, emosiynau, iechyd a lles rhywiol

Bydd y rhaglen yn:

- hyrwyddo datblygiad emosiynol, moesol, diwylliannol, cymdeithasol a chorfforol disgyblion
- annog disgyblion i drafod ac i fynegi eu rhywioldeb mewn ffyrdd positif ac yn cyfrannu at eu gallu i adnabod a gwrthsefyll camdriniaeth
- paratoi'r disgyblion i gymryd cyfrifoldeb am eu hymddygiad
- rhoi gwybod i ddisgyblion sut i gael cymorth a gwybodaeth bersonol
- darparu addysg rhyw a pherthnasoedd o ansawdd uchel fel rhan o'u datblygiad personol, emosiynol a chymdeithasol.

Amcanion Penodol

- Cyflwyno'r ffeithiau ynglŷn â datblygiadau corfforol ac emosiynol cyfnod glasoed a sicrhau dealltwriaeth ohonynt
- Cyflwyno'r ffeithiau ynglŷn â rhyw, atal-cenhedlu, erthyliad, clefydau rhywiol, AIDS yng nhydestun moesol perthynas o barch a chariad, a chreu ymwybyddiaeth o gyfrifoldebau a chanlyniadau perthynas rywiol
- Dangos i'r disgyblion bwysigrwydd gwneud penderfyniadau personol, unigol ynglŷn â pherthynas rywiol. Eu hannog i beidio â derbyn yn ddiamed safonau a osodir arnynt gan gyfoedion a'r cyfryngau.
- Rhoi'r cyfle i'r disgyblion fynd trwy'r broses o feddwl a thrafod materion yn ymwneud â rhyw fel eu bod yn barod i wynebu sefyllfaoedd bywyd yn y dyfodol yn fwy aeddfed, sensitif a meddylgar.

Cyflwyno'r rhaglen Addysg Rhyw

Gwahaniaethir yr hyn a addysgir i ddisgyblion yn ôl grŵp blwyddyn er mwyn sicrhau parhad a dilyniant rhwng blynyddoedd a chyfnodau allweddol.

Addysgir addysg rhyw ar y cyd rhwng y Gwasanaeth Iechyd, asiantaethau allanol ac aelodau o staff dysgu'r ysgol. Caiff y disgyblion eu haddysgu fel grŵp rhyw cymysg a/neu fel grŵp bechgyn/merched ar wahân yn dibynnu ar y testun/thema. Mae elfennau hefyd yn rhan o gynlluniau gwaith adrannau o fewn yr ysgol.

Y nod yw strwythuro'r rhaglen a gwersi yn ofalus fel bod cyd-destun moesol a chyfrifol yn cael ei osod yn glir fel sail i bob trafodaeth. Y prif nod yw cyfleu'r neges nad oes rhaid cael rhyw, bod dewis gan bob



unigolyn a bod canlyniadau emosiynol a chorfforol i'r dewis hwnnw. Yn allweddol bwysig fydd y syniad o hunan-barch a pharch at eraill a hefyd y syniad o'r cyfrifoldeb o fod yn rhiant.

Gofynion statudol

O dan adran 404 o Ddeddf Addysg 1996, mae'n ofynnol i gyrff llywodraethu pob ysgol a gynhelir:

(a) wneud, a diweddarau'n rheolaidd, ddatganiad ysgrifenedig ar wahân o'u polisi'n ymwneud â darparu addysg rhyw,

(b) gwneud copïau o'r datganiad a fydd ar gael i'w harchwilio (ar unrhyw adeg resymol) gan rieni plant cofrestredig yn yr ysgol a darparu copi o'r datganiad am ddim i unrhyw riant sy'n gofyn am un.

Mae gan rieni yr hawl o dan adran 405 o Ddeddf Addysg 1996 i esgusodi eu plant o gael addysg rhyw.

O dan adran 101(1)(c) o Ddeddf Addysg 2002, mae'n ofynnol i bob ysgol uwchradd a gynhelir gynnwys addysg rhyw ar gyfer pob disgybl sydd ar gofrestr yr ysgol fel rhan o 'gwricwlwm sylfaenol' yr ysgol. Pan ddarperir addysg rhyw, mae'n ofynnol i brifathrawon a chyrff llywodraethu ystyried canllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae adran 403 (1C) yn ei gwneud yn ofynnol i ganllawiau'r Cynulliad 'gynnwys canllawiau ynghylch unrhyw ddeunyddiau y gallai un o gyrff y GIG eu cynhyrchu ar gyfer eu defnyddio mewn addysg rhyw mewn ysgolion.'

Mae adran 403 o Ddeddf Addysg 1996 yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff llywodraethu a'r pennaeth: gymryd pa gamau bynnag sy'n rhesymol ymarferol i sicrhau, lle bo addysg rhyw'n cael ei rhoi i unrhyw ddisgyblion cofrestredig mewn ysgol a gynhelir, ei bod yn cael ei rhoi mewn ffordd sy'n annog y disgyblion hynny i dalu'r sylw dyledus i ystyriaethau moesol a gwerth bywyd teuluol.

Roedd *Cynllun Gweithredu Iechyd a Lles Rhywiol 2010-2015* yn adnewyddu ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i:

- wella iechyd a lles rhywiol y boblogaeth yng Nghymru
- cau'r bwlch anghydraddoldeb iechyd rhywiol
- datblygu cymdeithas sy'n cefnogi trafodaeth agored am berthnasoedd, rhyw a rhywioldeb.

Cyfrinachedd

Ni all athrawon/gweithwyr proffesiynol gynnig nac addo cyfrinachedd yn enwedig mewn perthynas â datgeliadau personol.

Anogir disgyblion i drafod gyda'u rhieni/warcheidwaid a'u cefnogi i wneud hynny.

Sicrheir fod disgyblion yn ymwybodol o'r gwasanaethau cymorth cyfrinachol e.e. nyrs yr ysgol/cwnsela.

Ymdrinir â datgeliadau i athrawon yn unol â'r polisi Diogelu Plant.



	Enw	Llofnod	Dyddiad
Cadeirydd y Llywodraethwyr	Mr Alun Llewelyn	<i>Alun Llewelyn</i>	Ionawr 2021
Pennaeth	Mrs Laurel Davies		Ionawr 2021

Dyddiad Adolygu	Ionawr 2022
------------------------	-------------

